

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 154 Rhif 51/52 Rhagfyr 23/30, 2021 50c.

ANGEN CYMOD Y NADOLIG

Mae angen gweithredu ysbryd y Nadolig i wella'r rhaniadau a gafodd eu hachosi gan bandemig Covid, yn ôl Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

'Yn ogystal â'i effaith ddinistriol ar iechyd cyhoeddus, mae digwyddiadau ac agweddau sy'n ymwneud â'r pandemig wedi achosi cryn chwerwder cyhoeddus,' meddai'r Parchg Beti-Wyn James. 'Ar y naill law, mae dicter tuag at rai gwleidyddion yr honnir eu bod wedi diystyru rheoliadau diogelwch Covid, ac ar y llaw arall chwerwder gan, ac yn erbyn, y rhai sy'n gwrthwynebu'r rheoliadau hynny.'

Hunanaberth

'Ganwyd Crist i gymodi rhwng Duw a dynoliaeth, ac mae gwir angen yr ysbryd hwnnw o gymod, goddefgarwch a chariad yn ein cymdeithas y Nadolig hwn. Roedd bywyd a marwolaeth Iesu yn un o hunanaberth llwyr, ac mae pobl ddi-ri eisoes wedi aberthu cymaint yn ystod y pandemig hwn.'



Cyfrifoldeb personol

'Wrth i'r argyfwng barhau mae galw arnom i aberthu ein hagweddau a'n gweithredoedd ein hunain er lles pawb. Os oes gennym gonsyrn a chariad gwirioneddol tuag at bobl eraill, yna mae gennym gyfrifoldeb personol i gymryd pob cam posibl i helpu i atal lledaeniad y feirws ofnadwy yma, yn y gobaith y byddwn yn rhydd o'r hunllef hon erbyn y Nadolig nesaf.'

Apêl Affganistan

Lansiwyd apêl gan Gymorth Cristnogol a mudiadau dyngarol eraill er mwyn codi arian i gynorthwyo trigolion Affganistan. Dywed Cymorth Cristnogol fod:

'Affganistan yn wynebu trychineb y gaeaf hwn. Mae blynyddoedd o wrthdaro, tlodi a'r pandemig diweddar wedi creu sefyllfa ble mae 22 miliwn o bobl yn wynebu diffyg bwyd ac 8 miliwn ar drothwy newyn marwol.'

Cyfrannwch nawr tuag at yr argyfwng hwn trwy DEC (Disasters Emergency Committee) Ewch i www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/dec-afghanistan-crisis-appeal



Nadolig Plawen a Blwyddyn Newydd Dda

i holl ddarllenwyr Y Tyst gan
staff Tŷ John Penri.

Bydd Tŷ John Penri yn
ailagor ar ddydd
Mawrth 4 Ionawr 2022

HSBC: Y BANC SY'N CODI TÂL AR ACHOSION DA

Er gwaethaf
pob protest,
ac er mawr
siom i'r
eglwysi a



phob elusen arall sydd â chyfrif banc
yn yr HSBC (Hongkong & Shanghai
Banking Corporation), mae'r banc
bellach yn codi tâl ar y fath gyfrifon.

Cyn i'r banc gymryd y cam hwn,
anfonwyd llythyr ar ran Cyfundeb
Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin at
Aelodau Seneddol lleol yn gofyn
iddynt wneud popeth o fewn eu gallu i
berswadio HSBC i ailystyried. Dyma
graidd y llythyr, a luniais fel cydlynnydd
cenhadol y cyfundeb.

Y sefyllfa

'Mae'n fater o gonsyrn a siom fawr i ni
fod cwmni HSBC yn bwriadu codi tâl
o £60 y flwyddyn ar elusennau, yn
ogystal â 40c. am fancio siec a 0.4%
am bob taliad mewn neu allan o'u
cyfrifon.

'Daw hyn yn sgil 18 mis anodd dros
ben i elusennau, gyda'u hincwm yn
syrthio'n sylweddol gan na fu'n bosibl
i lawer gynnal digwyddiadau i godi
arian oherwydd pandemig Covid-19.

'Ar yr un pryd, mae elw cyn treth
HSBC wedi codi'n sylweddol i £7.8
biliwn yn ystod hanner gyntaf 2021. O
ystyried hyn, mae'n warthus fod y banc
hwn yn cymryd canran o'r arian sy'n

parhad ar dudalen 3

Y Golofn Ryngwladol

Seland Newydd

Y Parchg Wayne Matheson, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteriaidd Aotearoa Seland Newydd, sydd wedi cyfrannu at ein colofn hon y tro hwn. Yn naturiol, mae'n gweld y Nadolig yn agosáu ac yn awyddus i'n cyfarch ac i'n hatgoffa o ryfeddod yr hyn a ddigwyddodd y Nadolig cyntaf hwnnw.

Deuthum ar draws Wayne wrth i ni ein dau fynychu cyfarfodydd CWM. Pan gynhaliwyd cynhadledd yr Ysgrifenyddion Cyffredinol yng Nghaerdydd yn 2018, penderfynodd aros am ychydig ddyddiau yn ychwanegol yng Nghymru a chyda Carolyn a minnau y treuliodd y cyfnod hwnnw. Yr ydym wedi parhau mewn cysylltiad byth oddi ar hynny.



Cyn dod yn Ysgrifennydd Cyffredinol yn 2014, yr oedd Wayne yn weinidog tair eglwys oedd mewn manau gwahanol iawn yn y wlad; Balclutha, Whangarei, a Lower Hutt. Yn briod ag Adrienne, gyda dau blentyn sydd bellach yn oedolion, ei brif ddiddordebau yw garddio, darllen ac, wrth gwrs, chwaraeon, yn enwedig rygbi! Dymunwn iddo ef a'i deulu Nadolig llawen iawn, a diolchwn iddo am ei erthygl.

Geraint Tudur

Hirddydd haf

'Kia ora' a chyfarchion cynnes o Aotearoa Seland Newydd, cartref y kiwi, y tuatara, y Crysau Duon a'r Nadolig sydd a'i ben i waered! Yma, mae'r



Tuatara



Pohutakawa

pohutakawa yn blodeuo, a hir ddyddiau'r haf bron a chyrraedd.

Ac mae cael Nadolig ben i waered yma fel petai'n adlewyrchu'r flwyddyn. Mae cymaint sydd a'i ben i waered. Yr ydym wedi bod trwy gyfnodau clo, dan gyfyngiadau, yn gwisgo mygydau, yn methu teithio, a'n ffiniau wedi eu cau; â'r rhestr yn ei blaen! Mae 'normalrwydd' bellach yn gysyniad dieithr, ac nid oes dim yr un peth ag y bu. Mae 'pryder', 'cyfyngiadau', 'rhaniadau' ac 'ofn' yn eiriau amlwg yn ein sgysiau heddiw, a mynegi y maent realiti'r sefyllfa yr ydym ynddi.

Pediwich ag ofni

Llefarodd angel wrth y bugeiliaid. 'Pediwich ag ofni,' meddai, 'oherwydd wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.' Yna dywedodd beth rhyfeddol iawn wrthynt; 'dyma'r arwydd i chwi: cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb.'

Mae'n eironig, onid yw? Bob tro y byddwn yn gweld golygfa o'r preseb mewn cartref neu mewn siop, mae bob amser yn ymddangos mor dwt! Llefydd blêr yw stablau ac ysguboriau fel arfer, ac yr ydym ni'n byw mewn byd blêr.

Distadledd a thlodi

Nid damwain oedd fod y bugeiliaid i ddod o hyd i Iesu yn y fath le. Gallwn ei adnabod am ei fod yn ymddangos yn y manau bleraf y gallwn eu dychmygu. Heb rym, heb arian, heb utgryn yn cyhoeddi ei ddyfodiad, heb swm curo dwylo'r rhai sydd o'i amgylch, heb benawdau newyddion yn datgan ei fod wedi dod. Wedi ei eni mewn stabl neu ysgubor, ynghanol anifeiliaid, wedi ei ymddiried i ofal cwpwl ifanc tlawd. Brenin yr Hollfyd, yr Alfa a'r Omega, yn dod i mewn i hanes y ddynoliaeth ar ffurf bwndel bychan wedi ei lapio mewn

distadledd a thlodi a gostyngeddwydd. Nid oes unman nad yw'n barod i fynd iddo, na dim nad yw'n barod i'w wneud, oherwydd nid oes unrhyw ddyfnder nad yw'n barod i fynd iddo er mwyn dod a grym, cariad, gras, tangnefedd, daioni a phresenoldeb Duw i ganol bywyd a phrofiad pwy bynnag sy'n barod i'w dderbyn. Bydd hyn yn arwydd o Iesu i chwi. Fe welwch Dduw ynghanol blerwch.

Newyddion da

Y rheswm pam fod hyn yn newyddion da i ni yw mai pobl flêr ydym ninnau, yn byw mewn byd blêr. Bob dydd y mae'n mynd fymryn bach yn flerach. Dros y flwyddyn ddiwethaf – mae'r man ble'r ydym ni yn byw, ble bynnag mae hynny, yn dystiolaeth o hyn. Yr ydym i gyd yn cyfrannu i'r blerwch yn ein ffordd ein hunain! Cymerwn yr hyn a ystyriwn yn fwyaf gwerthfawr, pobl yr ydym yn eu caru, teuluoedd sy'n annwyl gennym, ac yn aml iawn y maent hwy yn dioddef o flerwch yn fwy na llawer o bethau eraill. Yr hyn mae'r angel yn ei ddweud yw, 'Dyma'r newyddion da. Nid yw ein Duw ni yn ofni blerwch. Daeth i fyw mewn blerwch, gan wisgo cadachau a gorwedd mewn preseb, a daeth ei fywyd daearol i ben ac yntau eto'n gwisgo cadachau ac yn hongian ar groes. Rhwng y dydd cyntaf a'r olaf, treuliodd y rhan fwyaf o'i amser yng nghwmni pobl oedd mewn blerwch. Daliodd ati i'w caru, a'u cofleidio a'u dysgu am ffordd ragorach a gwell. Y rheswm pan yr aeth i'r groes oedd ei fod yn mynd a holl flerwch y byd yno gydag ef; y blerwch na allem ni ei dwtio, fe'i cymrodd arno'i hun. Nid yw ofn blerwch o gwbl!

Pa fath frenin sy'n cael ei eni mewn ysgubor? Pa fath Dduw sy'n dod i fannau blêr? Y Duw sy'n caru pobl gymaint ei fod yn anfon ei unig Fab atynt yn rhodd – Gwaredwr y byd!

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

**Cynhelir Cyfarfod
blynyddol y Coleg ar
10 Ionawr 2022
am 14.00 a hynny ar
Zoom.**

**Daw rhagor o fanylion
maes o law.**

**Trefor Jones-Morris,
Ysgrifennydd**

Colofn Cerdd a Mawl

Handel, y *Messiah* a'r Nadolig

Pryd mae'r Nadolig yn dechrau i chi? A beth ydy'r arwyddion eich bod chi'n edrych ymlaen at y Nadolig? Mae'r plant acw yn mynnu na ddylid dechrau dathlu'r Nadolig tan 1 Rhagfyr, ac yn fy meirniadu i'n llym am fy mod wedi dechrau bwyta mins-peis ers dechrau Hydref!

Mae'r Nadolig yn dechrau i rai pan mae'r trimings yn dod allan. Yn ein tŷ ni mae hynny'n cynnwys CDs o gerddoriaeth 'Nadoligaidd' – gan gynnwys recordiad o'r *Messiah* gan Handel. Mae perfformiadau o'r *Messiah* yn frith adeg Nadolig, ond cerddoriaeth ar gyfer y Grawys oedd y *Messiah* yng ngolwg y cyfansoddwr.



Y cyfansoddwr

Cafodd George Frederik Handel (1685-1759) i ei eni yn Halle yn yr Almaen yn yr un flwyddyn â J. S. Bach. Treuliodd ychydig flynyddoedd yn yr Eidal pan oedd yn ei ugeiniau cynnar, cyn symud i fyw i Loegr. Cyfansoddwr operâu Eidalaidd oedd Handel yn bennaf, ond yn anffodus roedd operâu wedi mynd yn llai a llai ffasiynol yn Lloegr bryd hynny, ac o ganlyniad roedd y neuaddau cyngerdd yn aml yn wag. Mae yna hanes yn rhywle am ffrindiau i Handel yn mynegi eu pryder fod y neuadd gyngerdd bron yn wag. Ymateb Handel oedd, 'Peidiwch poeni, bydd lleoliad gwag yn golygu fod yr acwsteg yn rhagorol!' Ond realiti'r sefyllfa oedd fod Handel yn mynd yn dlotach ac yn dlotach. Aeth ei gwmni opera yn fethdalwyr yn 1737, ac mae'n debyg fod Handel ei hun wedi diodde o strôc ysgafn tua'r un adeg.



O'r opera i'r oratorio

Wedyn dechreuodd Handel ysgrifennu oratorios, ond arweiniodd hynny at ddadlau ffyrnig a gwrthwynebiad llawer o glerigwyr. Er fod cymaint o'i waith yn seiliedig ar y Beibl, roedd gweithiau Handel yn cael eu hystyried yn gableddus gan lawer, am eu bod yn cael eu perfformio mewn theatrau. Ym 1739 roedd Cristnogion yn dinistrio posteri yn hysbysebu ei oratorio *Israel in Egypt*, ac weithiau yn torri ar draws y perfformiadau mewn protest. Roedd hyn i gyd yn gwylltio ac yn digalonni Handel, ond yna daeth tro ar fyd. Yn 1741 aeth ei gyfaill Charles Jennens i'w weld. Roedd Jennens wedi ysgrifennu libreto am fywyd Crist a'r achubiaeth trwyddo, ac roedd eisiau i Handel ei roi ar gerddoriaeth. Roedd y geiriau i gyd yn dod o'r Ysgrythur, a Jennens wedi plethu'r cwbl at ei gilydd i herio syniadau deistaidd – sef syniadau'r bobl hynny oedd yn gwadu fod Iesu yn ddwyfol. Yn fuan ar ôl y cyfarfod gyda Jennens daeth grŵp o elusennau o Ddulun at Handel a gofyn iddo gyfansoddi gwaith newydd i godi arian i ryddhau dynion oedd yn y carchar am eu bod yn ddyledwyr.

Messiah

Dechreuodd Handel gyfansoddi'r *Messiah* ar 22 Awst, 1741, ac roedd wedi cwblhau y gwaith mewn ychydig dros dair wythnos. Prin y daeth allan o'i ystafell, ac roedd yn aml yn mynd heb fwyd. Ond y stori orau ydy'r un am ei eiriau wrth ryw was aeth i mewn i ystafell y cyfansoddwr, a'i weld gyda dagrau yn llifo i lawr ei ruddiau. 'Rwy'n meddwl i mi weld y nefoedd gyfan o'm blaen, a'r Duw mawr ei hun,' oedd geiriau Handel wrth y gwas. Roedd y cyfansoddwr newydd gwblhau ysgrifennu yr 'Hallelujah Chorus'.

Yn y perfformiad cyntaf yn Fishamble Street Musick Hall, Dulun, llwyddwyd i godi digon o arian i ryddhau 142 o ddyledwyr o'r carchar. Yna, yn y blynyddoedd a ddilynodd, bu Handel yn arwain 30 perfformiad o'r *Messiah* ond dim un ohonynt adeg y Nadolig. Un

HSBC: Y BANC SY'N CODI TÂL AR ACHOSION DA – *parhad*

cael ei gyfrannu gan bobl at achosion da.'

Ymateb Aelodau Seneddol

Mewn ateb i'r cyfundeb, dywedodd Ben Lake AS Ceredigion iddo gyfarfod â swyddogion HSBC, ond nad oedd troi arnynt. Roedd hi'n wirioneddol ddrwg ganddo am hynny, meddai. Byddai'n cyfarfod â chynrychiolwyr y tri banc mawr arall – Lloyds, NatWest a Barclays – i geisio sicrhad na fyddant hwythau yn dilyn HSBC trwy godi tâl ar gyfrifon elusennau.

Cafodd y cyfundeb ymateb hefyd gan Simon Hart AS, Ysgrifennydd Cymru. Dywedodd Mr Hart bod sawl un wedi codi'r mater. 'I have written to HM Treasury to ask what action they are able to take in this regard and I understand that the NAVCA (the National Association for Voluntary and Community Action – yn Lloegr) are lobbying HSBC to review this decision.'

Arian Duw i Famon

Yn anffodus, nid yw'r HSBC wedi newid ei feddwl ynglŷn â gwasgu arian allan o elusennau, er i'w helw godi 74% yn ystod y flwyddyn i fyny hyd at fis Medi. Yn ystod y cyfnod yna, gwnaethant elw o £1.5 biliwn ym Mhrydain yn unig. Er gwaethaf hynny, mae Mamon yn dal i fynnu ei siâr o arian y plat casglu.

Alun Lenny

perfformiad yn unig gynhaliwyd mewn eglwys, ac roedd y diwygiwr John Wesley yn y gynulleidfa honno yng nghadeirlan Bryste.

Yn ystod ei yrfa ysgrifennodd Handel tua hanner cant o operâu, 23 o oratorios a thoreth o gerddoriaeth eglwysig. Dwedodd J. S. Bach amdano, '[Handel] yw'r unig berson y carwn i ei weld cyn i mi farw, a'r unig berson y byddwn yn dymuno bod, petawn i ddim yn fi.' Bu farw Handel ar benwythnos y Pasg 1759. Mae wedi ei gladdu ym mynwent Abaty Westminster, a'r geiriau ar ei garreg fedd yn dweud 'I know that my redeemer liveth.'

Arfon Jones

Yr Adran Gydenwadol

Cymorth Cristnogol yn cefnogi Apêl DEC Affganistan



Habib yn cael ei sgrinio ar gyfer diffyg maeth mewn clinig a gaiff ei gynnal elusen DEC – yr International Rescue Committee – yn Kabul, Affganistan.

Mae Cymorth Cristnogol wedi ymuno ag elusennau cymorth blaenllaw eraill yng Nghymru i lansio apêl ar y cyd i godi arian wrth i gynnydd trychinebus mewn diffyg bwyd ymledu ar draws Affganistan, gydag wyth miliwn o bobl yn wynebu newyn dros fisoedd y gaeaf. Mae plant eisoes yn marw ac mae miliwn yn fwy mewn perygl.

Bydd Apêl Affganistan y Pwyllgor Argyfyngau (DEC) yn codi arian at elusennau sy'n ymateb ar frys yn sgil gwrthdaro hirdymor ynghyd â'r sychder gwaethaf mewn 27 o flynyddoedd, pandemig parhaus Covid-19 a chwalfa economaidd enfawr.

Dywed asiantaethau DEC yng Nghymru, sy'n cynnwys Cymorth Cristnogol, Y Groes Goch Brydeinig, Achub y Plant, Tearfund a CAFOD, fod angen gweithredu ar frys i atal mwy o golli bywydau gan nad oes gan 22 miliwn o bobl – 55% o'r boblogaeth – ddigon o fwyd i oroesi.

Mae dros wyth miliwn o bobl ar drothwy newyn, gyda miliwn o blant o dan bump oed mewn perygl o farw dros y tri mis nesaf. Mae gweithredu'n gyflym yn hanfodol cyn y gaeaf wrth i'r tymheredd ostwng i -12 gradd.

Yn amodau rhewllyd y gaeaf, disgwylir y bydd tair miliwn o blant o dan bump oed yn dioddef diffyg maeth dirfawr dros y misoedd nesaf oherwydd nad yw eu teuluoedd wedi gallu tyfu cynydau a'u bod bellach yn methu talu am fwyd. Mae ysbytai eisoes yn ei chael hi'n anodd trin mamau a phlant sy'n dioddef o ddiffyg maeth yn sgil prinder meddyginiaethau a chyflenwadau.

Mae DEC Cymru yn apelio ar frys am ein cymorth. Bydd ein cefnogaeth yn helpu i ddarparu bwyd a maeth i blant, cefnogi ysbytai a chynnydd cymorth i'r rhai sydd wedi'u gorfodi o'u cartrefi. Rydym i gyd yn cofio'r haelioni a ddangoswyd dros y flwyddyn ddiwethaf – nawr mae'n bryd

rhannu'r haelioni â'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Rhowch beth bynnag allwch chi.

Ychwanegodd Cadeirydd DEC Cymru, Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru: "Mae'r sefyllfa yn Affganistan yn erchyll tu hwnt. Mae miliwn o blant mewn perygl o farw y gaeaf hwn a rhaid i ni weithredu'n gyflym i'w cyrraedd a darparu bwyd ar eu cyfer.

"Mae ein helusennau eisoes yn helpu ond mae gwir angen chwestrelliad enfawr o gyllid i fynd i'r afael â phroblem o'r maint hwn. Mae pobl yn newynu – mae wyth miliwn ar drothwy newyn; mae 22 miliwn o bobl, sef dros hanner y wlad, yn wynebu prinder bwyd difrifol. Bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig, drwy gynllun Aid Match yr Adran Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, yn rhoi arian cyfatebol i'r holl arian a godir gan yr apêl – hyd at £10 miliwn."

Bydd yr arian a godir yn caniatáu i elusennau DEC a'u partneriaid lleol ddarparu cymorth mewn bwyd a maeth brys i blant, darparu mwy o gyflenwadau a chymorth meddygol, darparu eitemau sylfaenol fel blancedi i helpu teuluoedd sydd wedi'u dadleoli i gadw'n gynnes, cyflenwi dŵr yfed glân ac amddiffyn menywod a merched.

Bydd rhoddion yn cael eu defnyddio mewn rhai o'r ffyrdd canlynol:

- gallai £10 roi triniaeth i blentyn sy'n dioddef o ddiffyg maeth am dair wythnos;
- gallai £20 fwydo teulu am wythnos;
- gallai £25 ddarparu blancedi i 5 o bobl dros fisoedd y gaeaf;
- gallai £100 ddarparu bwyd brys i deulu am dri mis.

I gyfrannu at Apêl Affganistan, ewch i <https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/dec-afghanistan-crisis-appeal>

Gweddïau Cymorth Cristnogol Pedwaredd Wythnos yr Adfent

Wrth ddisgwyl amdanat ti cododd merch ei llais mewn dewrder a mawl, mewn llawenydd a disgwyliad, mewn gwrthwynebiad a brwydr. Wrth ddisgwyl amdanat ti, rho gnawd ar ein ffydd i roi geiriau ar waith, i alw am gydraddoldeb i weithio dros gyfiawnder. Wrth ddisgwyl amdanat ti, bydded i'r isel gael eu codi, i'r mathredig gael eu hadfer, bydded i'r briwedig fod yn wydn, a'r grymus fod yn gymedrol. Wrth ddisgwyl amdanat ti, llanwer ni gyda gobaith, i ddweud ie wrth dy ewyllys, i rannu ein rhoddion a'n hadnoddau, i weithio gyda'n gilydd ar gyfer byd newydd. Yn dy enw y gweddïwn. Amen.

Gweddi Dydd Nadolig


'Ond roedd Mair yn cofio pob manylyn ac yn meddwl yn aml am y cwbl oedd wedi cael ei ddweud am ei phlentyn.'

Luc 2:19

Diolch iti, Dduw Ymgawdloedig, Am newydd da'r Nadolig. Am y newydd sy'n chwalu ofn y dyfodol, Newydd sy'n aflonyddu'r statws quo, Sy'n dod â gobaith er gwaetha anobaith, syfrdandod a rhyfeddod. Am newyddion sy go iawn yn llawn parchedig ofn, rhown ddiolch iti. Bydded i'r Newydd Da hwn ddistewi pob newyddion arall heddiw. Amen, a diolch a fo i Dduw.



Pos Nadolig y Plant




AR DRAWS

1. Pwysicaf
4. Beth rydw i'n cael fy ngalw
5. Bydd yn dod
6. Daeth tri ohonynt i Fethlehem

I LAWR

1. Dyma lle cafodd y bugeiliaid hyd i'r baban Iesu
2. Tri tri
3. Y Fendigaid Fair
5. Bachgen, wedi tyfu i fyny



Gweddi

Ein Tad, helpa ni i gofio am enedigaeth Iesu Grist ac ymuno i ganu mawl iddo fel yr angylion.


Cofiw'n am y bugeiliaid a'r doethion a ddaeth i weld y baban yn y preseb.

Cofiw'n fod Iesu wedi dod er mwyn pawb a gad i ni rannu llawenydd a chariad â phawb. Amen.

O rifyn Rhagfyr 2021-Ionawr 2022 y Gwyllydd, cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd. Golygir gan Robin Jones a Ffion Rowlinson, dylunir gan Elgan Griffiths. Cysylltwch â robinbethel@tiscali.co.uk neu ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk os hoffech wybod mwy am y Gwyllydd neu danysgrio i dderbyn copiau drwy'r post am bris rhesymol iawn.

Croesair

Ar ôl i chi lenwi'r croesair, fe fydd y llythrennau yn y rhes uchaf a'r llythrennau yn y rhes isaf, yn eu trefn, yn disgrifio canolbwynt ein dathliadau'r Nadolig hwn, a phob Nadolig. Daw'r adnodau o'r BCN.



Ar draws

7. ----- am byth oedd ddigon i wisgo'r goron ddrain. (2,4)
8. Bendithiwcw ein Duw, O bobloedd, a seiniwcw ----- yn glywadwy. *Salm 66* (2,4)
9. Codaf ---- wawr a gofyn am gymorth, a gobeithiaf yn dy eiriau. *Salm 119* (3,1)
10. Ond rhaid i chwi, gyfeillion annwyl, eich ----- eich hunain ar sylfaen eich ffydd holl-sanctaidd. *Jwdas* (8)
11. Nid yw milwr sydd ar ymgyrch yn ymdrafferthu â ----- bywyd bob dydd. 2 *Timotheus* 2 (7)
12. "Pwy sydd deilwng i ---- sgrôl ac i ddatod ei seliau?" *Datguddiad* 5 (4,1)
15. Ymddangosodd yr Arglwydd i Abraham wrth dderw ----. *Genesis* 18 (5)
17. Am hyn y mae ----- 'th gwmpas, a daw ofn disymwth i'th lethu. *Job* 22 (6,1)
20. ----- 'i wraig: dau a ddywedodd gelwydd wrth Dduw. (7,1)
22. Cyfododd Iesu fab y weddw yn y dref hon. (4)
23. Rheswm y barnwr anghyfiawn dros roi dedfryd i'r wraig weddw: 'rhag iddi ddal i ddod a'm ----- i farwolaeth'. *Luc* 18 (6)
24. Yr wyt yn gymrawd i bawb sy'n ----- *Salm 119* (2,4)

I lawr

1. Rachel ----- am ei phlant ac ni fynnai ei chysuro. *Mathew* 2 (2,4)
2. Y cwestiwn a ofynnwyd yn y synagog: "Onid ---- yw hwn?" *Mathew* 13 (3,1,4)
3. "Gwae chwithau, ----- y Gyfraith, oherwydd yr ydych yn beichio dynion â beichiau anodd eu dwyn." *Luc* 11 (7)
4. Roedd yr Iddewon yn y dref hon yn fwy eangfrydig na'r rhai yn Thesalonica. (5)
5. Ffrwyth pechod? (4)
6. Roedd Pedr yn bwrw ei ---- -' môr, pan dderbyniodd alwad Iesu. (4,1'1)
13. Gwrthrychau cariad y Cristion. (8)
14. -----, O Arglwydd, fy nghryfder. *Salm* 18 (5,2)
16. Â dynion fel ti y mae ----- dy ddrygioni. *Job* 35 (1,5)
18. Aeth Ananias i stryd o'r enw ----- chwilio am Saul. (5,1)
19. Mae'r Beibl yn dweud bod Duw bob amser yn ----- i faddau. (5)
21. Cyfamod heddw, cyfamod cadarn Duw, ni syfl o'i le, nid ie a ---- yw. (4)

'Gŵr â'i dasg oedd Gair y Dydd'



Cystadleuaeth ysgrifennu emyn ar gyfer nodi pen-blwydd Dechrau Canu, Dechrau Canmol yn 60 oed

Dyma wahoddiad i chi i ysgrifennu emyn newydd ar gyfer nodi pen-blwydd Dechrau Canu, Dechrau Canmol yn 60 oed. Gofynnir i'r emyn fod yn gynnig Cymraeg gwreiddiol, a chofiwch ystyried beth fyddai hyd addas i'w ganu mewn capel neu eglwys.

Rhoddir gwobr o £200 i'r emyn buddugol. Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 14 Ionawr 2022. Anfonwch eich ceisiadau at emyngymru@rondomedia.co.uk.

Bydd cystadleuaeth newydd yn y gwanwyn i gyfansoddi emyn-dôn i'r geiriau buddugol. Mwy o wybodaeth: www.s4c.cymru/dechraucanu.

Wedi bron chwarter canrif o wasanaeth ar bwyllgor golygyddol *Gair y Dydd*, a blynyddoedd helaeth fel ysgrifennydd cydwybodol y pwyllgor, ymddeolodd y Parch Pryderi Llwyd Jones yn ddiweddar. Rhaid felly oedd cydnabod ei gyfraniad a'i ddyfalbarhad i sicrhau bod y llyfryn hwn o fyfyrddodau dyddiol yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi bob tri mis. Gweithiodd Pryderi'n ddiflino i sicrhau cyfranwyr amrywiol a fyddai'n paratoi myfyrddodau amserol i'r darllenwyr gnoi cil arnynt. Ond gan iddo weithio'n dawel a gwylaidd, nid yw ei gyfraniad mor hysbys ag y dylai fod, ac yn sicr ni chafodd y clod a deilyngai.

Fel arwydd o ddiolchgarwch, trefnwyd ei fod yn derbyn clustog â'r geiriau 'Gair y Dydd' arni

ac englyn o waith y Parch John Owen, Ruthun. Cyflwynwyd y rhain iddo yn ddiweddar gan ei gyfaill a thrysorydd y pwyllgor, David Glyn Williams:

Hirben fel ysgrifennydd, un yn daer
A doeth fel ysgogydd,
Yn eirias fel lladmerydd
Gŵr â'i dasg oedd Gair y Dydd.

Dymunwn bob bendith i Pryderi i'r dyfodol, a diolch iddo am ei holl waith.

Gair y Dydd yw'r unig lyfryn defosiynol Cymraeg sy'n cynnig myfyrddodau ar gyfer pob un dydd o'r flwyddyn. Os hoffech danyysgrifio i dderbyn y cyhoeddiad, anfonwch air at ein trysorydd, David Glyn Williams, davidglynwilliams01@gmail.com



Y glustog a'r englyn a gyflwynwyd i Pryderi

Dydd Nadolig, Rhagfyr 25
Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol: Y Parchedig Beti-Wyn James
11:30
Dechrau Canu Dechrau Canmol: Nadolig (ail-ddarllediad)
12:00
☆
Dydd San Steffan, Rhagfyr 26
Dechrau Canu Dechrau Canmol: Carolau
19:30
☆
Dydd Sul, Ionawr 2
Dechrau Canu Dechrau Canmol: Carolau (ail-ddarllediad)
11:30
Dechrau Canu Dechrau Canmol: Uchafbwyntiau
19:30

radio cymru

Sul, 26 Rhagfyr – Caniadaeth y Cysegr, 7:30yb a 4:30yp
Cantorion John S. Davies yn canu detholiad o gerddoriaeth gysegredig

Sul, 2 Ionawr – Caniadaeth y Cysegr, 7:30yb a 4:30yp
Cantorion John S. Davies yn canu detholiad pellach o gerddoriaeth gysegredig

Dydd Nadolig, 25 Rhagfyr – Oedfa Radio Cymru, 12:00yp
Oedfa yng nghwmni aelodau Capel y Morfa, Aberystwyth, dan arweiniad eu gweinidog, y Parch Eifion Roberts


Gŵyl San Steffan, 26 Rhagfyr – Oedfa Radio Cymru, 12:00yp
Sul, 2 Ionawr – Oedfa Radio Cymru, 12:00yp

Atebion y croesair ar dudalen 3

Ar draws 7 Un waith 8 ei fawl 9 cyn y 10 adeiladu 11 gofalon 12 agor y 15 Mamre 17 maglau o 20 Ananias a 22 Nain 23 plagio 24 dy ofni

I lawr 1 yn wlo 2 mab y saer 3 athrawon 4 Berea 5 afal 6 rwyd i'r 13 gelynyon 14 Caraf di 16 a wnelo 18 Union i 19 barod 21 nage

Geiriau cudd: Y mab a roed i ni



Gweddi Ar Gyfer Nadolig 2021

Oddi wrth Cynnal, Y Gwasanaeth Cwnsela ar Gyfer Clerigion,
Gweinidogion Yr Efengyl, Gweithwyr Cristnogol, a'u Teuluoedd

O Dduw ein Tad, cynorthwya ni i groesawu dy Fab, Iesu Grist, i'n calonnau,
er mwyn iddo ymlid pob ofn. Pâr i'w oleuni chwalu pob tywyllwch a dwyn iachâd
i'r briwedig,
llawenydd i'r rhai sy'n drist ac yn unig,
nerth a gobaith i'r rhai sy'n cael pethau'n anodd.
Boed iddo'n llenwi â chariad, cariad at ein gilydd ac atat ti.
Cariad fydd yn gorlifo wrth i ni ofalu am a bod yn gefn i eraill, ac i ni'n hunain.

Yn ystod y cyfnod hwn o lawenydd, gobaith a heddwch,
gweddiwn dros y rhai nad ydynt yn profi'r pethau hyn,
y tlawd, y rhai ar gyrion cymdeithas, pawb sy'n dioddef,
ac yn arbennig y rhai sy'n gwybod beth yw gormes dibyniaeth.
Boed iddynt brofi'r rhyddid a ddaw gennynt ti, ac ymddiried ynot ti yn unig,
sydd â'th wasanaeth yn wir fraint,
ac wrth wasanaethu eraill boed i ni brofi gwir lawenydd.

Gweddiwn dros fydd sydd mor aml yn fyddar i dy neges o heddwch,
byd sydd wedi'i lapio mewn hunanoldeb. Helpa ni i fyw dy gariad,
mewn cymod a maddeuant, er mwyn i'th ewyllys gael ei chyflawni, ac er mwyn i'th deyrnas ddod.
Boed i ni uno gyda'r angylion mewn cân, a chael ein hatgoffa o'r gobaith sy'n ein huno: y gobaith a
anwyd ym Methlehem, yn wan a bregus.
Tyrd i'n calonnau a'n rhyddhau.
Llenwa ni â'th fendithion, Rhoddwr bopeth da. Amen.

AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â :
wynfordellisowen@adferiad.org
Rhif ffôn: 07796464045

www.cynnal.wales

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Yn ein rhifyn Nadolig rydym yn parhau â'r gyfres o fyfyrddodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

8 A daeth y Gair yn gnawd

Darllen: Philippiad 2:5-11

Amlygwch yn eich plith eich hunain yr agwedd meddwl honno sydd, yn wir, yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu. Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol. (adn 5-7)

Hyd yma, bu ein stori yn un am bobl. O Adda ac Efa hyd at Mair a Joseff, nhw, ynghyd â llu o rai eraill, sy'n sefyll ar ganol y stori yma a adroddir. Ond am ennyd, ar drothwy'r Nadolig, trown ein meddyliau at Dduw. Mae'n hawdd darlunio rhan Duw yn y cyfan mewn termau arwrol fel Gwaredwr neu Achubwr. Ychydig sy'n cael ei ddweud am sut yr effeithiodd yr ymgawdoliad ar Dduw, oherwydd ni ellir gwybod dim am Dduw oni chaiff ei ddatguddio. Ond mae cliwiau wedi eu gwasgaru ar led. Bu i Iesu gynyddu mewn deall a gwybodaeth fel plentyn (Luc 2:52), ac yn ddiweddarach cawn wybod ei fod wedi galaru (Ioan 11:38), wedi wylu (Ioan 11:35), wedi sychedu (Ioan 4:7), wedi bod yn ddig (Marc 3:5), wedi caru (Marc 10:21), ac ar y groes wedi llefain ar ei Dad, 'Pam yr wyt wedi fy ngadael?' (Mathew 27:46). Yn yr adnoddau hyn a rhagor, rydym yn cael cipolwg, a chipolwg yn unig, o'r hyn yr oedd yn ei olygu i Iesu ddod yn gnawd a phreswyllo yn ein plith.

Yn ein darlleniad heddiw o lythyr yr apostol Paul at y Philippiad, lle mae'n debygol o fod yn dyfynnu o emyn cynnar yn yr eglwys, rydym yn cael cipolwg pellach ar yr hyn gostiodd hi i Iesu gael ei eni yn ein plith. Mae'r cliw yn adnod 7, lle cawn yr ymadrodd 'gwacaodd ei hun'. Gwraidd y gair yn y Groeg yw *kenosis*, sydd yn disgrifio hunan-wacáu, o ildio'r hyn sydd gennyd. Mae Iesu, o fod yn gyfartal â Duw, neu o fod yn un ar ffurf Duw, yn gwacáu ei hun. Defnyddia Paul ymadrodd arall er mwyn ceisio cyfleu rhywbeth o hyn pan ysgrifenna, 'Oherwydd yr ydych yn gwybod am ras ein Harglwydd Iesu Grist, fel y bu iddo, ac yntau'n gyfoethog, ddod yn dlawd drosoch chwi, er mwyn i chwi ddod yn gyfoethog trwy ei dlodi ef.' (2 Corinthiaid 8:9)

Mae'n glir nad rhywbeth sy'n cael ei wneud i Iesu yw hyn neu ryw ffawd sydd wedi dod i'w ran. Dyma ei rodd o'i ewyllys ei hun – dileu ynddo'i hun yr hyn sy'n golygu ei debygrwydd neu ei natur gyfartal â Duw. O ganlyniad, fe gymer natur gwas, er mwyn gwasanaethu ewyllys y Tad, ond hefyd i wasanaethu'r rhai y daeth i fyw yn eu plith.


O ddod wyneb yn wyneb â'r fath esiampl o aberth, gallwn synhwyro gofyn: 'Sut y dylem ni fyw felly?' A dyna'r union gwestiwn y dylem ei ofyn, am mai oherwydd rhesymau moesegol – 'Amlygwch yn eich plith eich hunain yr agwedd meddwl honno sydd, yn wir, yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu' (adn 5) – y mae Paul wedi sôn am yr hunan-wacáu yma.

Ar y bore Nadolig hwnnw felly, wrth i Mair a Joseff edrych ar y Crist blentyn, nid Iesu yn ei holl ogoniant dwyfol welson nhw, ond Iesu oedd wedi dadfuiddsoddi ei hun o bob cyfeiriad o'i ddwyfoldeb ac a oedd wedi cymryd arno ein dyndod ni. Dywedodd John Calvin, y diwygiwr mawr, 'Mae gwyleidd-dra'r cnawd yn gorchuddio'r gogoniant dwyfol'. Cynnwys carol Charles Wesley, mewn cyfieithiad anhysbys, y geiriau:

Wle Dduwdod yn y cnawd,
Dwyfol Fab i ddyn yn Frawd;
Duw yn ddyn, fy enaid, gwêl
Iesu ein Emanwel!

Beth allwn ni ei ddysgu oddi wrth hyn? Yn gyntaf ac yn flaenaf, fe ddysgwn fod Duw yn caru pob un ohonom yn fawr iawn. Peth syml yw hyn i'w ddweud, ond mae o bwys aruthrol. Mae cariad y Tad (Ioan 3:16) yn anfon y Mab (Ioan 20:21) yn nerth yr Ysbryd Glân (Luc 1:35) – y Drindod ynghyd yn nrama'r achub. Am y rheswm hwn, ymateb i gariad Duw tuag atom ni drwy fynegi ein defosiwn ninnau iddo yntau yw ein galwad mewn bywyd. Yn aml, ac yn ddealladwy, fe roddwn ystyriaeth i haeriadau'r efengyl yn nhermau ein hangen am faddeuant, ac mae gwir angen hynny arnom. Yn yr un modd, gallwn sôn am yr efengyl fel mater o gyfiawnder, ac mae honno'n thema amlwg yn yr ysgrifurth hefyd. Ond mae yna ochr arall, sef fod yr efengyl yn galw arnom ac yn ein galluogi i ddeall Duw mewn ffordd sy'n cydnabod y cariad mae wedi ei ddangos tuag atom. Gallwn ddweud bod angen inni fynegi diolchgarwch, ond dydy'r gair hwnnw ddim yn ddigon cryf. Geilw'r efengyl am yr ymateb o gariad yr ydym yn rhydd i'w roi yn ein cariad ein hunain. Mae absenoldeb cariad o'r fath – o safbwynt Duw, cariad sydd heb dderbyn ymateb – yn boenus o amlwg. Mae mynegiant o'r fath gariad yn rhywbeth hynod brydferth.

Ond, mae rhywbeth arall yma hefyd. Nid yn unig fod Duw yn ein caru ni ond y dylem ni garu eraill. Os yw Duw yn gweld cymaint gwerth ynom, rhywbeth na ddylai ein synnu pan gofiwn inni gael ein llunio ar ei ddelw, yna dylai hyn siapia'r ffordd yr edrychwn ar eraill. Pan ofynnwyd iddo pa un oedd y



gorchymyn mwyaf, atebodd Iesu, 'Câr yr Arglwydd dy Dduw' a 'Câr dy gymydog fel ti dy hun' (Marc 12:30-31). Ar ei fwyaf amlwg dyma alwad dwfn i barchu a thosturio, i weld angen ac i gyfarfod yr angen hwnnw. Mae'n alwad i fod yn hael gyda'n agweddau yn ogystal â'n hamser a'n harian. Y tristwch yw fod cymaint o'r bywyd modern wedi ei strwythuro er mwyn rhwystro hyn rhag bod yn rhywbeth naturiol. Mae gennym ni'r cyfoethog a'r tlawd, ac er mwyn i'r tlawd gael eu cyfoethogi, mae angen i'r cyfoethog gael eu tlodi; a gadewch inni beidio â chymryd arnom fod hynny'n rhywbeth sy'n apelio at y rhan fwyaf o bobl, er mai am hynny y mae'r darn yma o'r Philippiad yn sôn. Effeithir ein cymdeithas i'r fath raddau gan raniadau dosbarth, gwleidyddol ac ethnig, fel bod rhai'n dadlau yn erbyn cymorth tramor am mai ar 'ein pobl ein hunain' y dylai ein blaenoriaeth fod. Mae eraill yn dadlau yn erbyn rhoi cymorth hyd yn oed i'n 'pobl ein hunain' am nad ydyn nhw'n ei haeddu. Mae angen i dosturi ddod o hyd i ffordd gwirioneddol o'i fynegi ei hun – ac nid yn unig mewn elusen i ddioddefwyr, ond trwy fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd y ffaith bod rhai yn dlawd, yn ddigartref, heb fynediad at iechyd, addysg na swyddi. Llifa hyn i gyd o'r ymgawdoliad.

Yn olaf, câr Dduw a câr eraill, ond câr dy hun hefyd. Nid bod gwahoddiad yma i fod yn narsisaidd, ond galwad i roi gwerth ar bwy wyt ti, plentyn i Dduw a grëwyd ar ei ddelw: 'Câr dy gymydog fel ti dy hun' (Marc 12:31, fy mhwyllais). Mewn oes lle mae'r pwysau i edrych mewn ffordd arbennig, i gyflawni rhyw beth neu berchnogi rhywbeth arall, yn dynfa fawr yn ein bywydau, mae angen inni fod yn sicr ynom ein hunain pwy ydym ni ac i bwy rydym ni'n perthyn. Mae angen inni dderbyn ein hunain yn union fel y dylem dderbyn eraill, gyda'u ffaeiddau a'u diffygion, ond eto fel rhai sydd wedi eu creu gan Dduw a'u caru gan Dduw.

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Golygyddol

Shalôm

Dyma grynodeb o'r newyddion heddiw ar ddydd Mercher 15 Rhagfyr. 'Y mae heintiadau Covid ar eu huchaf ers dechrau'r pandemig. Fe'n rhybuddiwyd gan Gymorth Cristnogol fod Affganistan yn wynebu newyn lle bydd 22 miliwn o bobl ar eu cythlwng. Lladdwyd merch fach o ganlyniad i ddiffyg gofal gan y menywod oedd yn edrych ar ei hôl. Y mae Rwsia yn pentyrru arfau ar y ffin gyda lwcraïn. Y mae chwyddiant ar ei uchaf ers 10 mlynedd.' Gellid ychwanegu mwy, ond rhydd yr ychydig eiriau uchod ddarlun o'r hyn sy'n digwydd yn y byd. Gwaetha'r modd y mae'n parhau i fod yn fyd toredig llawn anghyfiawnder a dioddefaint.

Weithiau mae pobl yn gofyn, pam nad yw Duw yn gwneud rhywbeth ynglŷn â hyn? Yr ateb yw Ei fod wedi ac y mae yn parhau i weithredu trwy Iesu Grist i ddod â chyfiawnder a heddwch. Daeth Iesu, mab Duw i ganol ein tryblith oherwydd bod yr Arglwydd yn ein caru a'n bod fel dynoliaeth mewn llanast enbyd nad ydym yn alluog i'w ddatrys. Un o'r geiriau a gysylltir yn aml gydag Iesu yw'r gair tangnefedd neu heddwch. Dywedodd yr angylion yn sgil ei enedigaeth yn Luc 2: 14 'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd.' (Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf, *heddwch* ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar bobl.' beibl.net) Dywedodd Iesu ei hun, 'Yr wyf yn gadael i chwi *dangnefedd*; yr wyf yn rhoi

i chwi fy *nhangnefedd* i fy hun.' Ioan 14:27

Eirene

Y gair Groeg am heddwch/tangnefedd yw *eirene* sy'n cyfleu llawer mwy na chyflwr lle nad oes rhyfela. Gellir deall yr egwyddor Feiblaidd o heddwch/tangnefedd yn llawnach trwy droi at y gair cyfatebol yn yr Hebraeg sef 'shalôm'. Mae'r gair shalôm yn cyfleu'r syniad o gyfanrwydd, lle mae rhywbeth yn cael ei adfer i'r cyflwr y bwriadwyd iddo fod. Gall gyfeirio at garreg heb nam ynddi i wneud allor ohoni (Joshua 8:31). Gall olygu wal sydd wedi ei chwblhau lle nad oes bylchau ynddi. Y syniad yw bod bywyd yn gymhleth ac yn llawn o rannau amrywiol a pherthynas gyda phob math o bobl a phan fo rhywbeth yn mynd o'i le, mae'r shalôm yn cael ei andwyo.



Brenhinoedd

Pan ddywedir yn 1 Brenhinoedd 9:25 fod Solomon wedi dod a Shalôm i'r deml, yr hyn a olygir yw bod y deml wedi ei chwblhau. Yn Diarhebon 16: 7 fe ddefnyddir y gair shalôm wrth ddweud fod perthynas rhwng dau wedi ei hadnewyddu. Pan gyfeirir at shalôm rhwng cenhedloedd a'i gilydd fe olyga nid yn unig fod ymladd yn peidio ond eu bod yn cydweithio er lles y ddwy genedl. Y bwriad gan Dduw oedd bod

brenhinoedd Israel yn dod a shalôm i'w bobl ond anaml y digwyddodd hynny. Felly, fe broffwydodd Eiseia y byddai Brenin mwy yn dod rhyw ddydd fyddai'n dod a shalôm gwirioneddol i bobl Dduw ac i genhedloedd y byd. Disgrifir Iesu gan Eiseia, yn hyfryd, fel Tywysog Tangnefedd (sar shalôm) ac na fyddai diwedd ar ei heddwch (shalôm) yn Eiseia 9: 5-6.

Bwriad Duw wrth anfon Iesu i'r byd yw dod a shalôm, yw ein gwneud yn gyflawn gan drwsio ein perthynas gyda Duw, ein perthynas â'n gilydd, trwsio dynoliaeth a thrwsio ein calonau. Bod shalôm yn dod i deyrnasu. Yn ystod ei ddyddiau ar y ddaear fe iachodd Iesu y cleifion, fe garodd ei elynion, fe wasanaethodd ei gyd-ddyn, fe wrthododd ddial, fe faddeuodd, bu farw ar y groes ac atgyfodi er mwyn ein cymodi gyda Duw gan ddod a shalôm. Dyma pam fod y neges Gristnogol mor bwysig i'n cymdeithas gyfoes oherwydd ei fod yn cynnig cyflawnder trwy gariad Duw. Wrth gwrs ni welwn y shalôm hwn yn ei gyfanrwydd yn ymarferol hyd nes y bydd yr Iesu yn dod a theyrnas Dduw yn ei chyflawnder. Ond yn y cyfamser ein braint aruthrol yw rhannu'r newyddion da i'r Gymru doredig, anghenus hon fod Duw yn malio cymaint am ein llanast, ein dryswch, ein digalondid fel ei fod wedi anfon Iesu fel Gwaredwr.

Shalôm i bawb ohonoch dros ŵyl y geni gwyrrthiol.

Alun Tudur

(Hoffai'r tîm golygyddol ddymuno pob bendith i chi dros y Nadolig ac i mewn i 2022 gan ddiolch i chi am eich ffyddlondeb i'r Tyst)

Carol Plygain yr Ymrafael

Côr cyntaf

Gwrthododd dwyfoldeb realiti rhithiol:
Mewn cig ac mewn gwaed ganed Mab Duw.
Beichiogrwydd corfforol lawrlwythwyd yn wyrthiol!
Ffenomen ysgytwol hyd heddiw!
Creawdwr y cosmos yn ddiddos mewn cnawd!
Rhaglennydd galaethau ym mreichiau y tlawd!
Rhown bob llais unigol a phob cyfrwng torfol,
O'r galon, i'w ganmol:
Yr Iesu, ein Brenin a'n Brawd.

Ail gân

Esboniwyd y Cread, concwerwyd y lleuad:
Pa ddiben i Dduw mewn cadachau?
Cyd-ddathlwn yn hytrach wir wyrthiau rhyfeddach
Gwyddonwyr a'u beiddgar lwyddiannau.
Trwy daenlen a lloeren meistrolwn ein byd!
Cyfansawdd cemegol yw baban mewn crud!
Fe lanwn yn raddol bob bwch deallusol!
Mor dda yw'r ddawn ddynol!
Heneiddiodd eich plygain a'i hud.

Côr cyntaf

Amheuthun modernrwydd y modem a'r rhyngwrdd:
Ymchwiliwn, dyfeisiwn yn ddiwyd!
Ond hyn a ddatguddiwyd: yn Iesu cyhoeddwyd
Cyfrinair sy'n datgloi'r cyfanfyd.
Holl harddwch a tharddle'r bydysawd yw Ef.
Er mwyn Iesu a thrwyddo mae'r ddaear a'r nef.
Ar gyfer ein heddiw mae'n Alffa ac Omega:
Dwys ofal gynigia
I'r clwyfus yng ngewyr ei lef.

Ail gân

Ni ffolwn ar ffydd ffantasiol twyll chwedlau:
Disodlwyd yr hen ofergoeliaeth.
Cras ddwndwr di-swyn sydd yn sŵn y credoau –
Dewiniaeth dan wisg diwynyddiaeth!
Pob parch i ddoethineb Pregethwr y Bryn
A'r Llyfr gadwai gannwyll yr heniaith yng nghynn:
Ond bellach mae'n gobaith mewn sylwedd a welir.
Goleuni gwrthrychol
Sy'n lluseru i'n traed erbyn hyn.

parhad ar y dudalen nesaf

Codwn ein coed Nadolig a dathlu geni Iesu!

Pryd mae Gŵyl y Nadolig yn dechrau? Y cerdyn cynta? Gweld y tŷ cynta â goleuadau drosto fel Blackpool? I'n meibion ni, dechreuau'r ŵyl a'r cyffro gyda'r goeden Nadolig. Mae gwynt y nodwyddau'n llenwi'r ystafell a'r goleuadau'n creu naws hud a lledrith iddyn nhw.

Gwreiddiau

Ond pam coeden Nadolig? Does dim coeden yn hanes geni Iesu yn y Testament Newydd! Mae gwreiddiau'r arfer i'w gweld yn y gorffennol pell, pell. Yn yr hen Ewrop roedd y gaeaf yn amser anodd. Y nosau'n hir, y dyddiau'n oer, a dim bwyd yn tyfu. Er mwyn dangos bad bywyd yn parhau casglai pobol frigau a dail bythwyrdd oddi ar goed fel pinwydd, uchelwydd [*mistletoe*] a'r gelynnen. Yna bydden nhw'n hongian y brigau hyn ar eu tai fel symbolau o fywyd. Credai pobol hefyd y byddai'r brigau'n cadw ysbrydion drwg draw.

Yn yr 16eg ganrif dechreuodd pobol

yr Almaen dorri coed ffynidwydd [*fir*] a'u rhoi yn eu cartrefi am fod y rhain hefyd yn wyrdd drwy'r gaeaf. Un noson, cerddai Martin Luther ei hun adre gyda'r nos a gweld y sêr yn disgleirio tu ôl i ffynidwydd y goedwig. Er mwyn rhoi'r un profiad i'w blant, aeth ati i gynnu canhwylau a'u dodi ar ei goeden gartre. Dyna ddechreuad y traddodiad o roi goleuadau ar y goeden. Yn 1840 priododd y Frenhines Victoria a'r Tywysog Albert o Saxe-Coburg. Fel Almaenwr, mynnodd Albert ddathlu'r Nadolig yng nghastell Windsor trwy godi coeden Nadolig yno a'i haddurno. Pan gyhoeddwyd darlun yn y wasg o'r teulu brenhinol o gwmpas y goeden, dyna ddechrau ffasiwn newydd – roedd pob teulu dosbarth canal yng ngwledydd Prydain yn moyn coeden debyg!

Dathlu goleuni

Ond pam dathlu'r Nadolig o gwbl ganol gaeaf? Nid tan y flwyddyn 336 y dechreuodd yr Eglwys yn Rhufain ddathlu'r Nadolig ar 25 Rhagfyr. Cyn

hynny roedd paganiaid yr Ymerodraeth wedi dathlu gŵyl feddwol y Satwrnalia ar y diwrnod hwnnw. Dyna ddyddiad yr heulsaf [*solstice*], pan oedd y dyddiau'n dechrau ymestyn eto. Roedd sawl traddodiad, yn cynnwys yr Eifftiaid, yn dathlu 'Aileni'r Haul' ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

Nid oedd pawb yn yr Eglwys yn hoffi cymryd gwyliau paganaidd – fel Calan Gaeaf hefyd – ar gyfer dathliadau Cristnogol. Er hynny – onid troi'r byd yn Gristnogol oedd comisiwn Iesu i ni? Arwain y rhai nad oedd yn credu ynddo i gredu?

Os bydd ein coed Nadolig yn cymell pobol i feddwl mwy am hanes Iesu, gorau i gyd! Codwn em n coed Nadolig, felly – a dathlu geni Crist ar 25 Rhagfyr!

Robat Powell

(allan o *Bwrlwm*, Capel Y Nant, Clydach Rhif 141, Rhagfyr 2021)



Carol Plygain – parhad

Côr cyntaf

Yn gadarn yng ngofod y stabl amserol
Daearodd Ei gariad afradlon.
Nid deunydd dychmygol
mo'r sail
ysgrythurol
Ond cofnod
pen-caled Ei dystion.

Atseiniwn eu byrdwn: daeth heulwen i'r dall;
Immanuel Bethlem 'wna ffyliaid yn gall;
Aberthodd Ei einioes ar groes Ei gywilydd;
Cyfododd o'r newydd!
Datododd weithredoedd y Fall.

Y ddau gôr

Yn llawen, gyfoedion, rhowch glust yn ystyrion!
Gwrandewch y newyddion sy'n torri!
Er gwaetha'i elynion, mae'r bychan mawr tirion
Yn fyw heddiw a bydd fyw 'fory.
Mae'n dwyn gwerth ac ystyr i ddryswch ein byw:
Therapi'r enaid yw Iesu, Mab Duw.
Cofleidiwn y grasol ymwelydd brenhinol:
Ein Ddoe, ein presennol,
A Christ ein dyfodol ni yw.

Phil Ellis



Preseb

Cyflwynwyd y preseb hyfryd yma i'r gynulleidfa yn oedfa'r bore, 5 Rhagfyr yng nghapel Minny Steet, Caerdydd. Y saer medrus a meddylgar yw Mr Ieuan Davies, aelod hynod ffyddlon a gweithgar iawn yn arbennig gyda thasgau ymarferol yn y capel yn ôl y gofyn. Mae Ieuan yn ganwr campus a phrofiadol ac wedi bod yn aelod ffyddlon hyd yn ddiweddar o Gôr Meibion Taf. Gyda llaw, mae ei ferch, Joy, yn adnabyddus iawn fel cyn arweinydd a chyn gyfeilyddes

côr llwyddiannus iawn, Orpheus Treforys.

Yn ystod y gwasanaeth Cymun hoeliwyd fy llygaid ar y goleuni cryf ddeuai o'r lamp fach oedd wedi ei gosod gan Ieuan ar do'r llety. Roedd y golau llachar yn fy nghymell i syllu yn feddylgar a gwerthfawrogl ar y teulu bach dychmygol o gylch y preseb ar ail Sul yr Adfent.

'Goleuni glân o'r to yn goleuo ein golwg a'n gwerthfawrogiad o gariad y Geni gwythiol.' Fy niolch i Ieuan a'r gweinidog Owain Llŷr Evans am oedfa rasol y Geni.

Gwilym Wyn Roberts



Erthyglau, llythrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol
gan Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Enw'r Iesu

Yr enw cyntaf sy'n cael ei roi i Grist adeg ei
eni yw'r enw Hebraeg 'Iesu'. Yn wir, dyma'r
hyn a ddywedodd yr angen Gabriel wrth Joseff:


'Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae'r hyn
a genhedlwyd ynddi yn deillio o'r Ysbryd Glân. Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef
Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau.' (Mathew 1:20-21)

Enw cymharol gyffredin ar fechgyn Iddewig yn y ganrif gyntaf oedd 'Iesu'.
Yn yr iaith Hebraeg, Iesu oedd 'Yeshua' neu 'Josua'. Roedd gan yr enw hwn ystyr
arbennig. Pan mae'r llythrennau 'ie' neu 'ia' yn ymddangos mewn enw Hebraeg,
mae'r enw – mwy na
thebyg – yn cyfeirio at
enw Duw: 'Yahweh'. Yn
Hebraeg, 'ie' yw
llythrennau cyntaf 'Iesu'
a 'Yeshua'. Yna, yn dilyn
'ie' yn enw Iesu, mae'r
ferf Hebraeg 'yshua' sy'n
golygu 'achub'. Felly,
ystyr yr enw 'Iesu', yn
ddigon syml, yw 'Mae
Duw yn achub'.

Mae'r enw yma yn un
arwyddocaol iawn i'w roi
i Iesu gan ei fod yn
esbonio'n glir pam ei fod wedi dod i'r byd. Fel mae Mathew 1:21 yn ei ddweud:
'Gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau.' Yn Iesu – fel
mae ei enw Hebraeg yn awgrymu – mae Duw wedi dod i achub ei bobl rhag eu
pechodau. Mae wedi dod i ddellio gyda'n problem fwyaf sef ein gwrthryfel yn
erbyn Duw. Trwy fyw bywyd perffaith a thrwy farw ar y groes yn ein lle, mae
Iesu yn cynnig maddeuant pechodau i bawb sy'n ymddiried ynddo. Ac mae hyn
yn newyddion arbennig o dda i ni!

Gwilym Tudur

Canys bachgen a aned i ni,
mab a roddwyd i ni, a bydd y
llywodraeth ar ei ysgwydd ef:
a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol,
Cynghorwr, y Duw cadarn,
Tad tragwyddoldeb, Tywysog
tangnefedd. - Eiseia 9:6



Pan fydd...

Pan fydd cân yr angylion wedi tawelu,
pan fydd y seren yn yr awyr wedi diflannu,
pan fydd y brenhinoedd a'r tywysogion wedi
cyrraedd adref,
pan fydd y bugeiliaid yn ôl gyda'u preiddiau,
pan fydd y baban Iesu yn cysgu drwy'r nos,
pan fydd Mair a Joseff wedi dod o hyd i
ddiogelwch.

Pan fydd y tinsel a'r goeden Nadolig blastig
'nôl yn y cwtsh dan star,
pan fydd sgerbwd y goeden Nadolig go iawn
wedi cyrraedd y ganolfan ailgylchu,
pan fydd olion y craceri i gyd wedi eu
darganfod,
pan fydd gweddillion y twrci wedi claddu,
pan fydd y ffilmiau Nadolig wedi diflannu
o'n sgriniau,
a phan fydd y byd yn dychwelyd i'w rwtin
arferol,
yna mae gwaith y Nadolig yn dechrau:

Dod o hyd i'r sawl sydd wedi colli'r ffordd,
gwledda â'r rheini mae eu hysbryd yn isel a
fflam eu gobaith wedi pylu,
bwydo'r rhai sy'n llwgu,
ryddhau'r gorthrymedig,
ailailadeiladu'r cenhedloedd,
dod â heddych i'r holl bobloedd,
creu harmoni a chynghanedd yn y galon.

Pelydra Goleuni Crist,
bob dydd,
ym mhob ffordd,
ym mhopeth a wnawn ac ym mhopeth a
ddywedwn.

Yna, mae gwaith y Nadolig yn dechrau.

Parchg Beti-Wyn James

*Dyma griw PIP (Pobl Ifanc Priordy) a fu'n arwain oedfa dan olau cannyll
nos Sul 5 Rhagfyr*

